

**Coleg Gŵyr Abertawe**

**AROLWG O  
FODDHAD  
RHIENI**



**Tymor y Gwanwyn  
2016**

# **AROLWG O FODDHAD RHIENI – TYMOR Y GWANWYN 2016 DYSGWYR SAFON UWCH AC UG AMSER LLAWN**

## **CYFRADDAU YMATEB**

Dyma'r tro cyntaf i'r coleg gynnal arolwg o foddhad rhieni. Rhoddwyd holiaduron i rieni oedd yn bresennol mewn nosweithiau rhieni ar gampysau amrywiol y coleg yn ystod mis Ionawr. Roedd rhai rhieni wedi llenwi'r holiadur yn electroniog hefyd ar ôl ei dderbyn trwy e-bost.

Derbyniom gyfanswm o 173 o ymatebion ar draws darpariaeth Safon UG/Uwch a darpariaeth alwedigaethol.

## **CYFLWYNIAD**

Roedd rhieni'n fodlon iawn ar gyngor a dderbyniwyd gan ddysgwyr ar eu dewis cwrs a'r cymorth a gawson nhw pan ddechreuon nhw yn y coleg, gyda rhieni myfyrwyr Safon Uwch/UG ychydig yn fwy bodlon na rhieni dysgwyr galwedigaethol.

## **Sylwadau**

At ei gilydd, mae llawer mwy o sylwadau cadarnhaol na rhai negyddol, heblaw am yr adran ynghylch cyfathrebu rhwng rhieni a'r coleg.

Yn gyffredinol, roedd y sylwadau mwyaf cadarnhaol yn ymwneud â'r canlynol:

- Menter AU+
- Mwynhau dysgu a bywyd coleg
- Paratoi ar gyfer astudio annibynnol
- Mwynhau gweithgareddau ychwanegol


Yn gyffredinol, roedd y sylwadau mwyaf negyddol yn ymwneud â'r canlynol:

- Cyfathrebu rhwng rhieni a'r coleg.
- Anawsterau wrth gyrchu'r e-CDU a chywirdeb yr e-CDU
- Rhai problemau ynghylch addysgu ar gyrsiau penodol
- Rhai pryderon a fynegwyd am bresenoldeb staff mewn pynciau penodol


# AROLWG O FODDHAD RHIENI – TYMOR Y GWANWYN 2016 DYSGWYR SAFON UWCH AC UG AMSER LLAWN

## CANLYNIADAU CYFFREDINOL

Roedd rhieni yn hynod fodlon ar brofiad cyntaf eu mab/merch o'r coleg ac roedd y ddau gwestiwn yn yr adran hon wedi sgorio 98%.




Roedd 154 o rieni wedi nodi eu bod yn hapus gyda'r cynnydd academaidd hyd yn hyn (89%) ac roedd 134 o rieni yn teimlo bod y gweithgareddau cymorth ychwanegol a gynigiwyd o leiaf yn 'dda' (78%).



## AROLWG O FODDHAD RHIENI – TYMOR Y GWANWYN 2016 DYSGWYR SAFON UWCH AC UG AMSER LLAWN

Roedd 127 o rieni wedi cytuno eu bod nhw bob amser yn cael y newyddion diweddaraf am faterion cynnydd/presenoldeb (73%)



### **Argymhellion o'r Arolwg Rhieni (i'w trafod)**

- Cyflwyno arolwg fel rhan o'r Cylch Ansawdd. E-bostio arolwg at rieni i'w gwblhau ym mis Ionawr/Chwefror gyda chanlyniadau ac arolwg i'w ddilyn ym mis Mehefin (LK)
- Defnyddio cynllun arfaethedig gosod targedau ar gyfer 2016/2017 i godi ansawdd adroddiadau/targedau a gwella cyfathrebu (Tîm Rheoli'r Coleg)
- Dechrau adran i rieni ar y wefan, gan gynnwys e-bost cyswllt i ateb ymholiadau, megis dim mynediad i'r e-CDU (NB/AL)
- Deoniaid i rannu adborth â Rheolwyr Cyfadrannau a dod ag awgrymiadau yn ôl i'r Tîm Rheoli Ansawdd Corfforaethol (Deoniaid)
- Pwyslais ar gyfathrebu prydlon a diweddariadau i rieni wedi'u hamlygu yng Nghynlluniau Gwaith Sesiynau Tiwtorial 2016/2017 (Rheolwyr Meysydd Dysgu)
- Cyllideb ar gyfer dwy rôl diwtorial newydd a fydd yn monitro gwaith gosod targedau ac ati (Grŵp Cynllunio ar gyfer Myfyrwyr)

**AROLWG O FODDHAD RHIENI – TYMOR Y GWANWYN 2016  
DYSGWYR SAFON UWCH AC UG AMSER LLAWN**

- Pob maes dysgu i gael un pwnc y tymor i'w gyfathrebu â rhieni trwy'r wefan ac e-bost (Rheolwyr Meysydd Dysgu)